

Cofnodion Cyfarfod yr 2ail Ebrill 2019

Yn bresennol :- Y Cadeirydd **Idris Thomas** a'r Cynghorwyr, Phyllis Ellis, Elfed Wyn Williams, Richard Llwyd Jones, Jane Pierce, Gareth Wyn Griffiths, Aled Green, R. Hefin Williams, Martin Davies a Emma Chappell.
Croesawyd Y Cynghorydd Elwyn Jones

Gweddi: Offrymwyd gair o weddi gan Richard Ll Jones

1.Ymddiheuriadau.

Gwawr Wyn Roberts, Rhian Evans-Hill a Lowri Hughes

2.Datgan buddiant

Martin Davies ar pwynt 9 Un Llais Cymru

3. Cofnodion Cyfarfod 5ed Fawrth 2019

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

4. Materion o'r cofnodion

Canolfannau Iaith – Bu i gabinet Cyngor Gwynedd gyfarfod heddiw, a'u penderfyniad ydi oedi am y tro a cychwyn arbrawf beilot am flwyddyn.

Lloches Bws Penisarwaun – Yn dilyn cais i Gyngor Gwynedd am gael gosod llwybr ar draws y gwair ger y cysgodfan o gyfeiriad Llys y Gwynt a Bryn Eglwys yn Penisarwaun. Mae'r Cyngor Sir wedi rhoi amcanbris o £1780, gyda canran o 1/3 oddeutu £600 i'r Cyngor Cymuned. Teimlwyd fod y pris yn uchel os mai ychydig o lwybr ydi o, a gosod 3 slab. Gofynwyd i'r clerc gysylltu yn gofyn yn union be mae'r pris yn gynywys.

Arwydd Lon Cae Metta – Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i roi arwydd ar y lôn o gyfeiriad lôn Crawia.

5.Gohebiaeth a materion eraill

Anfoneb Atgyweirio Cysgodfan Bws – Derbyniwyd anfoneb am y gwaith a waned yn atgyweirio cysgodfannau bws y Cyngor, ond yn anffodus, mae'r anfoneb wedi cyrraedd rhy hwyr i'w gynnwys yn taliadau 2018/19. Gofyn am anfoneb yn syth o hyn ymlaen.

Ciosg Rhiwlas – Nid yw'r trydan yn gweithio yno. Cafwyd amcanbris, am ail weirio'r golau newydd a datgyweirio yr un hen. Cytunwyd i gael gwneud y gwaith.

6. Cynllunio

Tyn y Buarth, Brynrefail – Estyniad a Newidiadau. **Dim Gwrthwynebiad**

2 Cae Cerrig, Deiniolen – Estyniad un llawr yn y cefn. **Dim Gwrthwynebiad**

Tyddyn Difyr, Bethel – Estyniad Deulawr ynghyd a chreu anecs

Blaen Cae Isaf, Deiniolen – Gosod Caban i'w ddefnyddio fel anecs

Bronant, Bethel – Estyniad i'r uned ddiwydiannol presennol ar gyfer storio cyfarpar offer yn ddiogel

7. Materion Ariannol

Diwedd blwyddyn, rhanwyd rhestr gwariant a derbyniadau o'r flwyddyn i'r Cynghorwyr. Bydd y clerc yn paratoi Mantolen Ariannol, ynghyd a chasglu dogfennau ar gyfer Archwiliad Mewnol i gael eu trafod a chymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.

8. Parc Cenedlaethol Eryri

Penodwyd Idris Thomas i gynrychioli'r cyngor yn gyfarfodydd y Parc Cenedlaethol. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu yn gofyn am fap i ddangos lle yn union mae eu tiriogaeth yn y Gymuned, a'u hysbysu o'n cynrychiolydd ar y panel.

10. O gwmpas y Bwrdd

Penisarwaun – Nid yw'r twll yn y ffordd ar lôn Cae Hywel byth wedi ei lenwi. Mae'r twll bron wrth giât Cae Eboni. Llythyr i Wynedd Eto.

Brynrefail – Nodwyd fod dyn oedranus wedi disgyn i mewn i dwll ar draen ger Trem Eilian, ac wedi brifo a'i gynhyrfu. Cysylltu a Cyngor Gwynedd i'w hysbysu i'w lenwi.

9. Un LLais Cymru

Derbyniwyd cŵyn trwy lythyr ebost i'r cleric. Gan nad oedd y llythyr yn nodi yn glir mater y gŵyn, cysylltwyd ac Un Llais Cymru am arweiniad ar y mater. Yn dilyn derbyn ymateb gan arbennigwyr cyfreithiol yn Un Llais Cymru, penderfynwyd fod y gŵyn yn un amheus ac nid oedd dim yn erbyn Y Cyngor nac ychwaith aelodau o'r cyngor. Penderfynwyd yn unfarn felly nad oes angen gwreithredu ymhellach ar y mater yma.